Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 767 (Cy. 154)

# ENILLION TROSEDDAU, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) (Diwygio) 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018 (O.S. 2018/196 (Cy. 45)) ("y Prif Orchymyn").

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn ofynnol o ganlyniad i ddiwygiadau i Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (p. 29) a wneir gan Ddeddf Cyllid Troseddol 2017 (p. 22).

Mae Deddf Cyllid Troseddol 2017 yn cyflwyno pwerau i Ddeddf Enillion Troseddau 2002 er mwyn ymafael yn eitemau eiddo penodol a restrir, eu cadw a'u fforffedu, ac i gloi a fforffedu arian mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu ("y pwerau fforffedu newydd"). Cefnogir y pwerau hyn drwy greu dau gategori ymchwilio newydd yn Rhan 8 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (ymchwiliad eiddo dan gadwad ac ymchwiliadau cyllid clo) ("yr ymchwiliadau newydd"). Mae'r Gorchymyn hwn yn mewnosod darpariaethau yn y Prif Orchymyn er mwyn galluogi ymchwilwyr ariannol achrededig Awdurdod Cyllid Cymru i gael mynediad at y pwerau fforffedu newydd a'r ymchwiliadau newydd, ac i bennu pa ymchwilwyr ariannol achrededig sy'n "uwch-swyddogion" at ddibenion y darpariaethau hynny. Yn ogystal, mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r mynediad at bwerau chwilio yn adrannau 352 a 353 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002. Mae cwmpas y ddarpariaeth yn y Prif Orchymyn wedi ei estyn i gynnwys yr ymchwiliadau newydd.

Mae Deddf Cyllid Troseddol 2017 yn mewnosod darpariaethau yn Rhan 7 o Ddeddf Enillion Troseddau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

2002 syn caniatáu i ymchwilwyr ariannol achredededig sy'n uwch-swyddogion wneud cais i'r llys ynadon am orchymyn o dan adran 336A o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 er mwyn estyn y cyfnod moratoriwm. Cyfnod o 31 diwrnod yw hwn sy'n digwydd pan fydd amheuaeth o wyngalchu arian wedi ei datgelu, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni ellir cymryd yn ganiataol bod awdurdodau gorfodi'r gyfraith yn rhoi cydsyniad i drafodiad penodol fynd yn ei flaen. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn mewnosod darpariaeth yn y Prif Orchymyn er mwyn pennu pa ymchwilwyr ariannol achredededig sy'n uwch-swyddogion at ddibenion gorchymyn o dan adran 336A o Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 767 (Cy. 154)

# ENILLION TROSEDDAU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mehefin 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *28 Mehefin 2018* |
| *Yn dod i rym* | *20 Gorffennaf 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 453(1A) a (2) o Ddeddf Enillion Troseddau 2002(**1**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Gorffennaf 2018.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "ACC" ("*WRA*") yw Awdurdod Cyllid Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achredig sy'n aelod o staff ACC) o'r Atodlen—

(**1**) 2002 p. 29. Mewnosodwyd adran 453(1A) gan adran 186(4) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6).

(**2**) O.S. 2018/196 (Cy. 45).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ym mharagraff 3, ar ôl "290(4)(c)" mewnosoder "a'r cyfeiriad yn adran 297A(6)(c)(**1**)";

(b) ar ôl paragraff 3 mewnosoder—

"**3A.** Adran 303C(9)(d)(**2**) (swyddog perthnasol at ddibenion Pennod 3A), adran 303L(5)(d) (personau penodedig - cadwad pellach o eiddo yr ymafaelwyd ynddo) ac adran 303O(2)(d) (personau penodedig - fforffedu eiddo).

**3B.** Adran 303Z1(6)(**3**) (swyddog gorfodi at ddibenion Pennod 3B) ac adran 303Z14(3)(d) (personau penodedig at ddibenion ceisiadau fforffedu cyfrif).";

(c) ym mharagraff 4, ar ôl "352(5)(c)" mewnosoder ", (ca) ac (cb)(**4**)";

(d) ym mharagraff 5, ar ôl "353(10)(c)" mewnosoder ", (ca) ac (cb)(**5**)"; ac

(e) ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

"**7A.** Adran 378(3C)(c)(**6**) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau eiddo dan gadwad o dan Ran 8).

**7B.** Adran 378(3E)(c) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau cyllid clo o dan Ran 8)."

(3) Yn Rhan 2 (cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achredig sy'n aelod o staff ACC ac sydd ar radd 7 neu uwch neu radd gyfatebol) o'r Atodlen—

(a) ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

"**11A.** Adran 297A(6)(c) (uwch-swyddog at ddiben rhoi hysbysiad fforffedu).

**11B.** Adran 303E(4)(f)(**7**) (uwch-swyddog at ddibenion cymeradwyaeth ymlaen llaw i gynnal chwiliadau).

**11C.** Adran 303Z2(4)(e)(**8**) (uwch-swyddog at ddibenion Pennod 3B).

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 297A gan adran 65(1) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26). Fe'i diwygiwyd gan baragraff 14 o Atodlen 21 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 34(7) o Ddeddf Cyllid Troseddol 2017 (p. 22) ("Deddf 2017") a pharagraff 19 o Atodlen 1 iddi.

(**2**) Mewnosodwyd adrannau 303C, 303L a 303O gan adran 15 o Ddeddf 2017.

(**3**) Mewnosodwyd adrannau 303Z1 a 303Z14 gan adran 16 o Ddeddf 2017.

(**4**) Mewnosodwyd adran 352(5)(ca) ac (cb) gan baragraff 47 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.

(**5**) Mewnosodwyd adran 353(10)(ca) ac (cb) gan baragraff 48 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.

(**6**) Mewnosodwyd adran 378(3C) i (3F) gan baragraff 59 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.

(**7**) Mewnosodwyd adran 303E gan adran 15 o Ddeddf 2017.

(**8**) Mewnosodwyd adran 303Z2 gan adran 16 o Ddeddf 2017.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**11D.** Adran 336D(7)(h)([1]) (uwch-swyddog at ddibenion adran 336A (pŵer y llys i estyn y cyfnod moratoriwm)).”; a

(b) ar ôl paragraff 13 mewnosoder—

“**13A.** Adran 378(3D)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau eiddo dan gadwad o dan Ran 8).

**13B.** Adran 378(3F)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau cyllid clo o dan Ran 8).”

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
24 Mehefin 2018

([1]) Mewnosodwyd adran 336D gan adran 10(4) o Ddeddf 2017.